## PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Nant, Prestatyn ar ddydd Gwener, 25ain Medi 2009 am 10.00 a.m.

### YN BRESENNOL

Mr C.B. Halliday (Cadeirydd), Ms. M.E. Medley, Mr G.F. Roberts a Mrs. P. White ynghyd â’r Cynghorwyr H.Ll. Jones a D.A. Thomas

### HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (IKH), Cyfreithiwr (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 323 MATERION BRYS

Nid oedd dim materion brys i’w hystyried gan y pwyllgor.

### 324 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29ain Mai 2009 (a gylchlythyrwyd yn flaenorol).

**Materion yn Codi –**

Tudalen 3 – Eitem Rhif 4 – Goddefebau – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D.A. Thomas rhoddodd Clerc y Sir wybod y byddai, wedi iddo dderbyn cyfarwyddyd gan yr Ombwdsman, yn mynd i’r afael â mater rhoi cyfarwyddyd i’r cynghorwyr hynny a oedd yn Gynghorwyr Sir ac yn Gynghorwyr Tref/Cymuned.

Tudalen 4 – Eitem Rhif 6 – Materion Brys – Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Cyfeiriodd Mrs. P. White at ei habsenoldeb o gyfarfod diwethaf y pwyllgor pan oedd yr aelodau wedi trafod ymweliad y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol â’r awdurdod. Ymddiheurodd Clerc y Sir nad oedd Mrs. White wedi cael gwybod yn ddiweddarach am y cyfle i aelodau’r pwyllgor fod yn gyfrannog yn y broses honno. Rhoddodd wybod bod y Panel wedi cynhyrchu adroddiad interim ers hynny, y gellid ei ddarparu ar gyfer yr aelodau petai angen.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29ain Mai, 2009 fel rhai cywir.*

### 325 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Rhoddodd Clerc y Sir wybod nad oedd dim adroddiadau am bresenoldeb mewn cyfarfodydd Cyngor Sir, Tref neu Gymuned wedi’u cyflwyno gan aelodau’r Pwyllgor Safonau. Atgoffodd yr aelodau y dylai unrhyw faterion arwyddocaol sy’n codi o’u presenoldeb mewn cyfarfodydd gael eu cynnwys ar yr agenda ac y byddai’n ddefnyddiol cofnodi unrhyw gyfarfodydd a fynychwyd hefyd. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai’n arfer da cysylltu â’r clerc pwyllgor perthnasol cyn mynychu cyfarfodydd cyngor.

Rhoddodd Mrs. M.E. Medley wybod ei bod hi wedi mynychu cyfarfod o Gyngor Cymuned Cefn Meiriadog yn gynharach yr wythnos honno ar ôl cysylltu â’r clerc ond nad oedd ganddi ddim i adrodd arno. Serch hynny, roedd yr ymweliad wedi rhoi cipolwg iddi ar sut oedd cyfarfodydd o’r fath yn cael eu cynnal a theimlai y dylai’r awdurdod hwn fod yn cynnig mwy o hyfforddiant i gynghorau tref/cymuned. Cyfeiriodd aelodau at eu presenoldeb mewn sesiwn hyfforddi yn gynharach yn yr wythnos ar y Côd Ymddygiad, yr oeddynt wedi’i gael yn eithriadol fuddiol ac roeddynt yn teimlo y byddai’n ddefnyddiol cynnig hyfforddiant o’r fath i gynghorwyr tref/ cymuned. Gwnaeth y pwyllgor hefyd drafod y gwahanol ffyrdd o fynd ati y mae cynghorau tref/cymuned yn eu dilyn wrth gynnal cyfarfodydd gyda rhai’n dilyn dull ffurfiol ac eraill yn llawer llai caeth o ran prosesau a gweithdrefnau. Awgrymodd Clerc y Sir y gallai fod yn fater i’r pwyllgor ei ystyried yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr G.F. Roberts rhoddodd Clerc y Sir wybod bod y rhan fwyaf o gynghorau’n cyfarfod yn fisol a chadarnhaodd y byddai’n adrodd yn ôl ar isafswm nifer y cyfarfodydd a fynnir gan

gynghorau. Cyfeiriodd y Cynghorydd D. Thomas at y gofyn i gynghorwyr fynychu o leiaf un cyfarfod bob chwe mis.

***PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa.*

**326 CYFARFOD Â'R PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ANNIBYNNOL**

Hysbyswyd yr aelodau fod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi ymweld â Chynghorau Sir yng Nghymru i archwilio lwfansau aelodau. Roedd y Panel wedi ymweld â Sir Ddinbych ar 10fed Mehefin, 2009 ac roedd nifer o gynghorwyr a swyddogion wedi'u cyfweld, yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Cadeirydd ar ei gyfarfod gyda'r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol pan ofynnwyd am ei farn ar yr adolygiad o'r lwfansau sy'n daladwy gan gynghorau sir. Rhoddodd wybod y gofynnwyd iddo'n benodol am ei farn ar daliadau i aelodau cyfetholedig, pryd yr oedd wedi datgan ei gefnogaeth i lwfans gael ei dalu i aelodau cyfetholedig mewn cydnabyddiaeth o'u gwaith.

Cyfeiriodd Clerc y Sir at yr adroddiad interim gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol a oedd wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf fel dogfen ymgynghori a rhoddodd wybod ei fod wedi anfon y ddogfennaeth ymlaen at gynghorwyr i ymateb yn uniongyrchol. Roedd y Panel wedi gofyn hefyd am gefnogaeth cynghorau i ehangu'r pwerau deddfwriaethol i gynnwys cynghorau tref a chymuned a chytunodd Clerc y Sir i adael i'r aelodau wybod am unrhyw ddatblygiadau yn hynny o beth. Wrth fynd heibio rhoddodd Clerc y Sir wybod ei fod, o dro i dro, wedi derbyn sylwadau gan gynghorwyr a oedd yn teimlo bod grwpiau gwleidyddol yn camdrafod y system lwfansau er mwyn mwyafu nifer y lwfansau a delir. Teimlai y gall fod yn ddefnyddiol i'r aelodau ystyried a oedd hynny'n fater i'r Pwyllgor Safonau pe byddid yn derbyn mwy o sylwadau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D.A. Thomas ymhelaethodd Clerc y Sir ar argymhelliad y Panel i leihau categorïau lwfansau o chwech i bedwar. Rhoddodd wybod hefyd fod yna farn gyffredin fod gan gadeiryddion pwyllgorau y tu allan i'r Cabinet yr un lefel o gyfrifoldeb ond nid oedd y Panel yn teimlo bod maint y gwaith a wneir gan Is-Gadeiryddion yn cyfiawnhau lwfans ychwanegol. Roedd Sir Ddinbych wedi argymell lwfans arbennig yn daladwy i'w cynrychiolydd ar y Panel Mabwysiadu a Maethu o ystyried y gwaith y mae'n ei olygu.

***PENDERFYNWYD**:-*

*(a) nodi'r adroddiad llafar ar waith y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Annibynnol a'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd, a*

*(b) os derbynnir mwy o sylwadau yn hynny o beth, ystyried a yw camdrafod y system lwfansau i fwyafu nifer y lwfansau a dderbynnir yn fater i'r Pwyllgor Safonau.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD** dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol am y rheswm ei bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**327 CÔD YMDDYGIAD**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ynghylch ymchwiliad a wnaed gan yr Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus i honiad fod y Côd Ymddygiad wedi'i dorri, a wnaed yn erbyn cynghorydd. [Roedd adroddiad yr Ombwdsman wedi'i gylchlythyru gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.]

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y peirianwaith rhagnodedig ar gyfer ymdrin â honiadau o'r fath a gofynnodd am benderfyniad y pwyllgor ynglŷn â'r ffordd briodol o weithredu o ystyried adroddiad yr Ombwdsman a'r opsiynau y manylwyd arnynt o fewn ei adroddiad eglurhaol.

Roedd y pwyllgor yn falch o nodi natur gynhwysfawr yr ymchwiliad a wnaed gan yr Ombwdsman a chymerodd y cyfle i eglurhau agweddau neilltuol ar yr adroddiad a thystiolaeth a gyflwynwyd gyda Chlerc y Sir. Ystyriodd yr aelodau adroddiad yr Ombwdsman yn fanwl ac ar sail cryfder y dystiolaeth a gyflwynwyd casgliad rhagarweiniol y pwyllgor oedd y dylid rhoi'r cyfle i'r cynghorydd wneud sylwadau i'r pwyllgor mewn perthynas â'r mater hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth. Hysbysodd Clerc y Sir yr aelodau o'r cam nesaf ym mhroses y gwrandawiad ac opsiynau'r pwyllgor, yn dibynnu ar eu penderfyniad terfynol. Cytunodd y pwyllgor i wrando'r achos yn eu cyfarfod nesaf ar 13eg Tachwedd 2009 a gofynnodd fod unrhyw waith papur angenrheidiol i'w gylchlythyru i'r aelodau cyn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *bod y sawl sy'n destun yr ymchwiliad i gael y cyfle i wneud sylwadau, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod ef neu hi wedi methu, neu y gall fod wedi methu, â chydymffurfio â Chôd Ymddygiad yr awdurdod perthnasol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 a.m.

******